Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

**Eifion Evans**
**Prif Weithredwr**
**Chief Executive**

Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE

Julie James AS,
Y Gweinidog Newid Hinsawdd,
Llywodraeth Cymru

*Trwy e-bost yn unig:*
*Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru*

| | |
|---|---|
| Dyddiad<br>Date | 8 Awst, 2023 |
| Gofynnwch am<br>Please ask for | Eifion Evans |
| Llinell uniongyrchol<br>Direct line | 01545 572004 |
| Fy nghyf<br>My ref | EE/SGP/SAD |
| Ebost<br>Email | PrifWeithredwr@ceredigion.gov.uk |

Annwyl Julie James AS,

**Cynllun Datblygu Strategol Canolbarth Cymru**

Ysgrifennaf atoch fel Prif Weithredwr Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru), i wneud cais am gyfarfod i drafod datblygiadau i'r Cynllun Datblygu Strategol Canolbarth Cymru a'r goblygiadau ar Gynlluniau Datblygu Lleol presennol.

Mae rhanbarth Canolbarth Cymru yn gyfuniad o Awdurdodau Lleol Ceredigion a Phowys a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a'n bwriad pennaf i gyd-gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol Canol Cymru mor ddiffuant a phosibl. Rydym yn cydnabod bod hyn yn ymarfer dwys ar adnoddau ac i wneud y defnydd gorau, a datblygu, y capasiti presennol o'r adnoddau sydd gennym, buaswn yn gwerthfawrogi cael trafodaeth ynghylch yr opsiynau i brosesu neu i beidio prosesu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth mewn sefyllfa unigryw i wneud cynnydd ar y Cynllun Datblygu Strategol sy'n disgrifio'n briodol weledigaeth sydd wedi'i selio ar ein lleoliad gwledig, adnoddau a chymunedau cadarn. Tra bod cyngor Interim Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gynllunio a Ffosffadau wedi oedi ein  datblygiadau ar adolygiadau'r Cynllun Datblygu Lleol yng Nghyngor Sir Ceredigion a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Powys, yn destun 'dyddiad cwympo'n farw', wrthi'n paratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd i gymryd lle. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth o'r farn bod y saib hwn yn gyfle i ail-feddwl ein dull gweithredu ar y cyd ac i ail-flaenoriaethu adnoddau er mwyn ffocysu ar gynllun newydd blaengar i'r rhanbarth.

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth wedi trefnu is-grwpiau, gan gynnwys is-grŵp i'r Cynllun Datblygu Strategol, sydd wedi dechrau dosbarthu cyllid, llinellau amser a phrosesau yn unol â rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol. Trwy wneud hyn, rydym wedi canfod yr arbedion posibl y gellir ei wneud petai Cynllun Datblygu Strategol fod yn brif gynllun i ddatblygu gyda'r anodau presennol (timau a chyllideb Cynllun Datblygu Lleol) o'r ddau awdurdod lleol yn anelu tuag ato.

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.**
**We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English.  Corresponding in Welsh will not involve any delay.**

**Prif Weithredwr / Chief Executive :** **Eifion Evans**
**Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Corporate Directors :** **Barry Rees**
**James Starbuck**

Cydnabyddir y byddai hyn o bosibl yn gadael Powys heb gynllun "byw" am ddwy flynedd ychwanegol, ond o ystyried y farn gyfreithiol a roddwyd i ni gan Gymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru y byddai eu cynllun presennol yn parhau i gario pwysau materol lle mae ei pholisïau'n canolbwyntio'n lleol, ac yn unol â Dyfodol Cymru, maent o'r feddylfryd i gydweithio er mwyn blaenoriaethu'r Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth.

Gyda hynny, buaswn yn gwerthfawrogi'r cyfle i egluro ac ymhelaethu ar ein safbwynt ymhellach gan gymryd cyngor a chefnogaeth Weinidogol i gefnogi'r dull y mae'r Llywodraeth, yn ei huchelgais i sicrhau Cynllun Datblygu Strategol cyflawn cynnar a symud ymlaen yn gyflym at gyflwyno Cytundeb Cyflawni i'w arwyddo gan weinidogion.

Yn gywir,

Eifion Evans
Prif Weithredwr
Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth